# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

## Cofnodion : HWLG(3)-11-10 : 10 Mehefin 2010

Mae modd gweld y cyfarfod hwn ar Senedd TV yn: http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300003_10_06_2010&t=0

**Amser: 12.50 - 15.50**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Darren Millar, Gorllewin Clwyd (Cadeirydd)
Andrew R.T. Davies, Canol De Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Peter Black, Gorllewin De Cymru
Helen Mary Jones, Llanelli
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Irene James, Islwyn
Ann Jones, Dyffryn Clwyd

### Tystion

Catriona Williams, Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru (Eitem 2)
Christine Walby OBE, Cyn Gadeirydd Plant yng Nghymru (Eitem 2)

Catrin Williams, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru (Eitem 3)
Dr Peter Higson, Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (Eitem 3)
Mandy Collins, Dirprwy Brif Weithredwr a Phennaeth Adolygu Gwasanaeth, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (Eitem 3)

Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros y Gwasanaethau Cymdeithasol (Eitem 4)
Julie Rogers, Cyfarwyddwr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant (Eitem 4)

Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol (Eitem 5)
Paul Williams, Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru (Eitem 5)

### Staff y Pwyllgor

Marc Wyn Jones, Clerc
Sarita Marshall, Dirprwy Glerc
Siân Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (eitemau 1-4 yn unig)

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriad gan Val Lloyd.

### Eitem 2: Ymchwiliad i fyrddau lleol diogelu plant - casglu tystiolaeth gan Plant yng Nghymru

**Papur:**

HWLG(3)-11-10(p.1)

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Plant yng Nghymru, a oedd yn canolbwyntio ar fynd ymlaen â'r agenda ddiogelu; cwmpas, cadeiryddiaeth, swyddogaeth a chynrychiolaeth byrddau lleol diogelu plant; partneriaethau; ymarferwyr llinell flaen; plant agored i niwed; a chynnwys plant a phobl ifanc, fel rhan o'i ymchwiliad i fyrddau lleol diogelu plant.

**Cam i'w gymryd**

Y tîm clercio i ofyn am wybodaeth gan Asiantaeth Ffiniau'r DU ynghylch ei ymgysylltiad â Byrddau Lleol Diogelu Plant.

### Eitem 3: Ymchwiliad i fyrddau lleol diogelu plant - casglu tystiolaeth Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i blant a Theuluoedd Cymru (CAFCASS) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

**Papurau:**

HWLG(3)-11-10(p.2) a HWLG(3)-11-10(p.3)

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Wasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru ac Arolygiaeth Gofal

Iechyd Cymru, a oedd yn canolbwyntio ar swyddogaeth, cynrychiolaeth a chwmpas byrddau lleol diogelu plant; ymarferwyr llinell flaen; rhannu gwybodaeth; rôl y GIG; a grwpiau agored i niwed fel rhan o'i ymchwiliad i fyrddau lleol diogelu plant.

### Eitem 4: Ymchwiliad i fyrddau lleol diogelu plant - casglu tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**Papur:**

HWLG(3)-11-10(p.4)

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, a oedd yn canolbwyntio ar fynd ymlaen â'r agenda ddiogelu, rôl, cynrychiolaeth, cwmpas, cadeiryddiaeth ac ariannu byrddau lleol diogelu plant; partneriaethau; ymarferwyr llinell flaen; plant agored i niwed; a chynnwys plant a phobl ifanc, fel rhan o'u hymchwiliad i fyrddau lleol diogelu plant.

### Eitem 5: Craffu ar waith y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Papur:**

HWLG(3)-11-10(p.5)

5.1 Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyffredinol ag Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Camau i'w cymryd**

Y Gweinidog i ddarparu papur ar waith a wneir gan ei Hadran gyda'r gwasanaeth addysg i ddarparu gofal iechyd ataliol i bobl ifanc.

Y Gweinidog i ddarparu papur ar y gwaith a wneir gan grŵp tasg a gorffen Chris Martin pan fydd wedi'i gwblhau, ac ar rôl a chyfrifoldebau'r amrywiol grwpiau a sefydlwyd i ystyried cyffuriau a moddion yng Nghymru.

Y Gweinidog i ddarparu adroddiad ar ganlyniad gwaith a wnaed ar reoli cyflyrau cronig.

Y Gweinidog i rannau gwybodaeth â'r Pwyllgor am y ddeddfwriaeth arfaethedig ynghylch gwelyau haul pan fydd ar gael.

Y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu ymrwymiadau 'Cymru'n Un' i'r Pwyllgor, yn cynnwys yr ymrwymiad i gael gwared â'r defnydd o ysbytai'r sector preifat yn y GIG.

### 6: Papurau a nodwyd

6.1 Nododd y Pwyllgor y papurau canlynol:

HWLG(3)-11-10-p6 Adroddiad Drafft ar Ofal Newyddenedigol yng Nghymru

HWLG(3)-10-10 Cofnodion y cyfarfod blaenorol